Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

Hysbysiad o Newid Cyfeiriad Budd-dal Tai, Gostyngiad Treth y Cyngor a Phrydau Ysgol am Ddim

This form is available in English from the Civic Centre

Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael mewn print bras o'r Ganolfan Ddinesig

Ben Smith
Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Ganolfan Gwasanaethau,
Neuadd y Ddinas,
Abertawe SA1 4NR
01792 635353

Os nad oedd hawl gennych i Fudd-dal Tai a / neu Ostyngiad Treth y Cyngor yn eich hen gyfeiriad, bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais lawn. Mae'r ffurflen hon ar gael o'r Ganolfan Gyswllt, Canolfan Ddinesig, Abertawe (ffoniwch 01792 635353) neu o un o'r Swyddfeydd Tai Rhanbarthol.

AT DDEFNYDD Y SWYDDFA'N UNIG
Dyddiad y derbyniwyd y ffurflen hon (stamp)

1. Enw a Chyfeiriad

Dyddiad Geni: / /

Enw Llawn:

Rhif Yswiriant Gwladol:

Hen Gyfeiriad:	Cyfeiriad newydd:
Côd Post:	Côd Post:

Dyddiad symud allan: / /

Dyddiad symud i fyw yno: / /

Dyddiad diwedd eich tenantiaeth: / /

Dyddiad dechrau eich tenantiaeth: / /

Os nad ydych wedi symud eto, nodwch y dyddiad rydych chi'n bwriadu symud: / /

2. Manylion Cyswllt

Gall ein helpu i brosesu'ch hawliad yn gynt os ydych yn rhoi'ch manylion cyswllt yma:

Rhif ffôn yn ystod y dydd:

Rhif ffôn symudol:

Cyfeiriad e-bost:

3. Dyma fy nghais ar gyfer:

☐ Budd-dal Tai ☐ Gostyngiad Treth y Cyngor Ticiwch yr hyn rydych am wneud cais amdano.

Byddai'n well gen i petaech yn cysylltu â mi yn Saesneg ☐ Cymraeg ☐ ticiwch

4. Pwy sy'n byw gyda chi yn eich cyfeiriad newydd?

Sylwer: Os ydych chi'n briod; mewn partneriaeth sifil; neu'n byw gyda rhywun fel pe baech yn briod neu mewn partneriaeth sifil, p'un a yw'ch partner o'r un rhyw neu'r rhyw arall, mae'n rhaid i chi ei gynnwys ar y ffurflen hon, gan roi ei berthynas fel partner.

Eich Partner

Teitl: Mr/Mrs/Miss/Ms

Dyddiad Geni: / /

Cyfenw:

Rhif Yswiriant Gwladol:

Enwau cyntaf:

Hen gyfeiriad:

Lletywyr/Is-denantiaid/Cyd-denantiaid/Cyd-berchnogion

	Person 1af	2il Berson	3ydd Person
Cyfenw:			
Enwau cyntaf:			
Dyddiad Geni:	/ /	/ /	/ /
Nodwch a yw'n lletywr, yn is-denant, yn gyd-denant/berchennog			

4. Pwy sy'n byw gyda chi yn eich cyfeiriad newydd? Parhad

Pobl annibynnol

	Person 1af	2il Berson	3ydd Person
Cyfenw:			
Enwau cyntaf:			
Dyddiad geni:	/ /	/ /	/ /
Rhif Yswiriant Gwladol:			
Rhyw:	Gwryw ☐ Benyw ☐	Gwryw ☐ Benyw ☐	Gwryw ☐ Benyw ☐
Y berthynas â chi: e.e. mab, modryb, brawd, ffrind.			

Plant Dibynnol

	Plentyn 1af	2il Blentyn	3ydd Plentyn	4ydd Plentyn	5ed Plentyn
Cyfenw:					
Enwau cyntaf:					
Y berthynas â chi:					
Dyddiad geni:	/ /	/ /	/ /	/ /	/ /
Ydych chi neu'ch partner yn derbyn Budd-dal Plant ar eu cyfer?	N ☐ Y ☐	N ☐ Y ☐	N ☐ Y ☐	N ☐ Y ☐	N ☐ Y ☐
Dyddiad y disgwylir i Fudd-dal Plant ddod i ben:	/ /	/ /	/ /	/ /	/ /
Ydy'r plentyn mewn addysg amser llawn?	N ☐ Y ☐	N ☐ Y ☐	N ☐ Y ☐	N ☐ Y ☐	N ☐ Y ☐
Os ydy, nodwch pa ysgol y mae'n mynd iddi					

Os **NAD** ydych chi am dderbyn prydau ysgol am ddim, ticiwch yma ☐

5. Newid mewn Amgylchiadau

A gafwyd unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau a allai effeithio ar swm y Budd-dal Tai / Gostyngiad Treth y Cyngor y mae gennych hawl iddo ar wahân i newid eich cyfeiriad?

Naddo ☐ Do ☐

(Rhoddir enghreifftiau o'r newidiadau y mae angen i chi roi gwybod amdanynt yn Rhan 10). Os ydych wedi ateb "Do", rhowch fanylion isod:

6. Rhent

Ydych chi'n rhentu'ch eiddo? Nac ydw ☐ Ydw ☐

(Byddai hyn yn cynnwys eiddo cymdeithasau tai a'r cyngor)

Os nad ydych, ewch i Adran 9.

6a. Mae'r rhent cymwys a ddefnyddir i gyfrifo'ch Budd-dal Tai yn seiliedig ar nifer y bobl sy'n byw yn eich cartref a nifer yr ystafelloedd gwely y mae eu hangen arnoch ar eu cyfer. Fodd bynnag, gellir diogelu'ch rhent cymwys neu ganiatáu ystafelloedd gwely ychwanegol yn yr amgylchiadau canlynol:-

- Mae angen gofal dros nos arnoch chi, eich partner, rhywun nad yw'n dibynnu arnoch neu blentyn.
- Ni allwch chi a'ch partner rannu ystafell wely oherwydd anabledd.
- Ni all plant yn eich cartref rannu ystafell wely oherwydd anabledd.

Rhaid bod ystafell wely ychwanegol ar gael er mwyn caniatáu budd-dal ychwanegol.

Sawl ystafell wely sydd gennych yn eich cartref? ☐

Dan reolau Budd-dal Tai, byddai disgwyl i 2 blentyn dan 10 oed o unrhyw ryw, neu 2 blentyn dan 16 oed o'r un rhyw, rannu ystafell wely. Rhaid i'r cyngor benderfynu sawl ystafell wely y mae ei hangen ar deulu wrth gyfrifo faint o Fudd-dal Tai sy'n ddyledus.

Fodd bynnag, gellir caniatáu ystafell wely ychwanegol yn yr amgylchiadau canlynol:

- Ni all pâr rannu ystafell wely oherwydd anabledd

n**eu**

- mae gan blentyn anabledd difrifol a:

  byddai ei ymddygiad naill ai'n amharu ar gwsg plentyn arall neu'n achosi perygl o niwed corfforol i un o'r ddau blentyn petaent yn rhannu ystafell wely.

ac

- mae plentyn anabl neu aelod anabl o'r pâr yn derbyn elfen GOFAL Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganolig neu uwch, Lwfans Gweini, elfen byw dyddiol Taliadau Annibyniaeth Personol neu Daliadau Annibyniaeth y Lluoedd Arfog (TALIA).

O ystyried yr uchod, a oes unrhyw un yn eich aelwyd nad yw'n gallu rhannu ystafell wely?
Os "Nac oes", ewch i 6b.
Os "Oes", cwblhewch yr adran hon yn llawn. Nac oes ☐ Oes ☐

Mae'n rhaid i'r cyngor benderfynu a yw'n rhesymol i rannu ystafell wely. Rhowch esboniad llawn o'r amgylchiadau a pharhewch yn Adran 9 os bydd angen. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ategol gan ymarferwr gofal iechyd proffesiynol i gadarnhau'r hyn rydych yn ei ddweud wrthym.

Enw'r plentyn y mae angen ystafell wely ar wahân arno:

Beth yw ei gyflwr meddygol?

Sut mae'n effeithio arno – beth yw natur a difrifoldeb yr anabledd?

Os oes angen ystafell ar wahân ar blentyn, pam byddai ei gyflwr yn tarfu ar gwsg plentyn arall sy'n rhannu ei ystafell wely neu'n peri perygl o niwed corfforol i'r naill blentyn neu'r llall?

neu Os nad yw pâr yn gallu rhannu ystafell wely oherwydd anabledd, esboniwch pam

6b. Oes ystafell yn cael ei darparu ar gyfer y gofalwr fel y gall aros dros nos i ofalu amdanoch chi, eich partner, cyd-denant, rhywun nad yw'n dibynnu arnoch neu blentyn?

Nac oes ☐ Oes ☐

Sylwer mai un ystafell wely ychwanegol yn unig y gellir ei chaniatáu ar gyfer gofalwr (neu dîm o ofalwyr) dros nos nad yw'n byw yn yr un aelwyd

Rhaid bod ystafell wely ychwanegol ar gael er mwyn caniatáu budd-dal ychwanegol.

Os "Nac oes", ewch i Adran 6c.

Os "Oes", cwblhewch yr adran hon yn llawn.

Pwy sy'n derbyn y gofal dros nos?

Pa mor aml y darperir y gofal dros nos?

Dywedwch wrthym sawl noson (ar gyfartaledd) y darperir gofal dros nos bob wythnos.
Os na ddarperir gofal dros nos bob wythnos, dywedwch wrthym pa mor aml mae'n cael ei roi.

Pwy sy'n darparu'r gofal?

Gallai hyn fod yn sefydliad megis y cyngor neu wasanaeth nyrsio dros nos NEU gallai fod yn unigolyn megis ffrind neu berthynas. Gallai hefyd fod yn sawl person sy'n cymryd tro i helpu.

- Os mai sefydliad sy'n darparu'r gofal, nodwch ei enw a'i gyfeiriad.
- Os mai unigolyn neu unigolion sy'n darparu'r gofal, nodwch eu henwau / cyfeiriadau.

Hefyd bydd angen i chi gyflwyno llythyr oddi wrth y person/sefydliad sy'n darparu'r gofal sy'n cadarnhau'r wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi i ni ar y ffurflen hon. Rhaid i'r llythyr gynnwys enw a chyfeiriad y person / sefydliad sy'n darparu'r gofal.

Dywedwch wrthym isod pam mae angen gofal dros nos a rhowch dystiolaeth gan ymarferydd gofal iechyd proffesiynol i gefnogi'ch hawliad.

Ni fydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth hon os yw'r person y gofelir amdano'n derbyn Lwfans Gweini, elfen GOFAL Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd uwch neu ganolig neu Daliadau Annibyniaeth Personol ar gyfer byw dyddiol.

Gallwch barhau yn Adran 9 os bydd angen.

Tystiolaeth gan ymarferydd gofal iechyd proffesiynol i gefnogi'ch hawliad.

Os bydd rhaid i chi ddarparu prawf, byddai'n rhaid i ni weld tystiolaeth ategol (ysgrifenedig) gan ymarferydd gofal iechyd proffesiynol i gadarnhau bod angen gofal dros nos/ystafell wely ychwanegol. Gallai ymarferydd gofal iechyd proffesiynol fod yn un o'r canlynol:

- Meddyg ymgynghorol
- Arbenigwr ysbyty
- Ffisiotherapydd
- Therapydd galwedigaethol
- Nyrs ardal
- Nyrs seiciatrig gymunedol
- Meddyg teulu (GP)

Byddai'n rhaid iddo gadarnhau bod y rheswm a roddwyd gennych am gael gofal dros nos neu ystafell wely ychwanegol yn gywir.

6c. Os ydych yn rhentu'ch eiddo gan y cyngor, ewch i Adran 9.

Os ydych yn rhentu'ch eiddo gan Gymdeithas Tai neu landlord preifat, parhewch i gwblhau'r adran hon.

Bydd angen i chi ddarparu prawf o'ch tenantiaeth trwy ddarparu un o'r dogfennau gwreiddiol canlynol:

- Cytundeb tenantiaeth cyfredol
- Llythyr oddi wrth eich landlord neu asiant eich landlord y mae'n rhaid iddo gynnwys
  a) eich enw a'ch cyfeiriad
  b) enw llawn a chyfeiriad (busnes) y landlord;
  c) enw llawn a chyfeiriad (busnes) yr asiant sy'n rheoli;
  ch) swm y rhent sy'n daladwy;
  d) yr hyn sy'n cael ei gynnwys yn y rhent e.e. tanwydd, dŵr, prydau bwyd a gwasanaethau cefnogi eraill;
  dd) y cyfnod talu neu pa mor aml y caiff y rhent ei dalu e.e. bob wythnos/mis, bob pedair wythnos.
  e) y dyddiad y dechreuodd eich tenantiaeth.
- Llyfr Rhent - (mae'r Is-adran Budd-daliadau'n cadw'r hawl i dderbyn neu wrthod hwn fel prawf gan ddibynnu ar ei gynnwys).

Os nad oes gennych brawf wrth law, dylech barhau i ddychwelyd y ffurflen hon neu gallech golli budddaliadau. Os na allwch ddarparu prawf o fewn mis calendr i ddyddiad y ffurflen gais hon, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni. Os nad ydych yn rhoi gwybod i ni, efallai na fyddwch yn cael unrhyw fudd-dal.

6ch. Manylion Landlord / Asiant

Teitl, enw a chyfeiriad eich landlord:		Teitl, enw a chyfeiriad y person sy'n casglu'r rhent (yr asiant) os yw'n berson gwahanol i'ch landlord:	
Rhif ffôn eich landlord:		Rhif ffôn yr asiant:	

Ydych chi neu'ch partner yn perthyn i'r landlord neu'r perchennog, neu ei bartner ef? Os "Ydych", nodwch y berthynas	✗ ☐	✓ ☐
Ydych chi neu'ch partner yn berchen ar unrhyw ran o'r eiddo rydych bellach yn byw ynddo?	✗ ☐	✓ ☐
Ydych chi neu'ch partner erioed wedi bod yn berchen ar unrhyw ran o'r eiddo rydych bellach yn byw ynddo?	✗ ☐	✓ ☐
Os "Ydych", pryd daeth eich perchnogaeth arno i ben?	/ /	
Ydy'ch landlord yn gyn-bartner i chi neu'ch partner?	✗ ☐	✓ ☐
Ydy'ch landlord yn rhiant i blentyn yr ydych chi neu'ch partner yn gyfrifol amdano?	✗ ☐	✓ ☐
Ydy'ch landlord yn ymddiriedolaeth, yr ydych chi neu'ch partner yn ymddiriedolwr ynddi neu'n fuddiolwr ohoni?	✗ ☐	✓ ☐
Ydy'ch landlord yn ymddiriedolaeth, y mae eich plentyn neu blentyn eich partner yn fuddiolwr ohoni?	✗ ☐	✓ ☐
Ydych chi'n rhentu'r llety gan gwmni yr ydych chi neu'ch partner yn gyfarwyddwr ohono neu'n weithiwr ynddo?	✗ ☐	✓ ☐
Ydych chi'n byw yn yr eiddo fel amod o'ch cyflogaeth chi neu gyflogaeth eich partner?	✗ ☐	✓ ☐

6d. Eich Llety

Ym mha fath o gartref rydych chi'n byw?

- ☐ Tŷ ar wahân
- ☐ Tŷ pâr
- ☐ Tŷ teras
- ☐ Byngalo ar wahân
- ☐ Byngalo pâr
- ☐ Byngalo teras
- ☐ Fflat mewn bloc
- ☐ Fflat uwchben siopau
- ☐ Fflat mewn tŷ
- ☐ Fflat ddeulawr
- ☐ Hostel
- ☐ Arall

Os "Arall", pa fath o lety ydyw?

Sawl llawr sydd yn yr eiddo?

Ar ba lawr y mae eich llety? (Ystyriwch mai'r llawr sydd ar yr un lefel â'r palmant yw'r llawr gwaelod)

- ☐ Pob llawr
- ☐ Islawr
- ☐ Llawr gwaelod
- ☐ Llawr 1af
- ☐ 2il lawr
- ☐ 3ydd llawr
- ☐ Arall

Os "Arall", ble mae'r llety?

Nodwch sawl ystafell sydd yno

	Faint sydd yn yr eiddo cyfan?	Faint rydych chi a'ch teulu'n eu defnyddio?	Faint rydych chi'n eu rhannu â'r deiliaid eraill?
Ystafelloedd byw			
Ystafelloedd gwely			
Fflatiau un ystafell			
Ceginau			

	Faint sydd yn yr eiddo cyfan?	Faint rydych chi a'ch teulu'n eu defnyddio?	Faint rydych chi'n eu rhannu â'r deiliaid eraill?
Ystafelloedd ymolchi			
Toiledau			
Ystafelloedd eraill			

Ydych chi'n rhentu ystafell neu rai o'r ystafelloedd yn yr eiddo? Nac ydw ☐ Ydw ☐
Os "nad ydych", ewch i Adran 6dd.

Os "ydych", mae'n rhaid i chi ateb y cwestiynau canlynol. Atebwch y cwestiynau fel petaech yn wynebu'r eiddo o flaen eich tŷ.

Ticiwch leoliad eich ystafell:
i) Blaen ☐ Canol ☐ Cefn ☐
ii) Ochr chwith ☐ Canol ☐ Ochr dde ☐

Oes rhif gan eich ystafell neu'ch fflat un ystafell? Nac oes ☐ Oes ☐

Os "Oes", nodwch rif yr ystafell.

6dd. Gwybodaeth ychwanegol am eich llety

Ydych chi'n byw mewn llety â chymorth? Nac ydw ☐ Ydw ☐

Ydych chi'n derbyn gofal, cefnogaeth neu oruchwyliaeth yn eich cartref? Nac ydw ☐ Ydw ☐

Os "ydych", pwy sy'n darparu'r gwasanaeth hwn? ☐ Landlord ☐ Darparwr arall

Pwy sy'n gyfrifol am addurno y tu mewn i'ch eiddo? (e.e. paentio, papuro'r waliau) ☐ Chi ☐ Eich landlord

Faint o gelfi a ddarperir gan y landlord? ☐ Popeth ☐ Peth ☐ Dim byd

Ydy'ch rhent yn cynnwys tâl i chi ddefnyddio garej? Nac ydy ☐ Ydy ☐

Oes gan eich llety system gwres canolog? Nac oes ☐ Oes ☐

Oes gardd gan eich llety? Nac oes ☐ Oes ☐

6e. Eich Rhent a'ch Tenantiaeth

Faint yw eich rhent gros gan gynnwys unrhyw daliadau gwasanaeth? £

Pryd mae'r swm hwn yn ddyledus?

Bob dydd ☐ Bob wythnos ☐ Bob pythefnos ☐ Bob 4 wythnos ☐ Bob mis ☐

Arall ☐ Os "Arall", pa mor aml?

Y dyddiad y dechreuodd eich tenantiaeth / /

Pa fath o denantiaeth sydd gennych (er enghraifft, byrddaliad)?

Beth yw hyd eich tenantiaeth?

Oes gennych gytundeb tenantiaeth ysgrifenedig? Nac oes ☐ Oes ☐

Ydych chi'n gyd-denant? Nac ydw ☐ Ydw ☐

Os ydych, nodwch:

Faint yw'r rhent ar gyfer yr eiddo cyfan? £

Sawl cyd-denant sy'n atebol i dalu'r rhent?

Enwau'r cyd-denantiaid eraill	Y berthynas â chi

Ydych chi am i ni drafod eich hawliad â'ch landlord neu'ch asiant? Nac ydw ☐ Ydw ☐

6f. Gwasanaethau

Ydy'ch rhent yn cynnwys tâl ar gyfer:

	Nac ydy	Ydy	Os "Ydy", faint?		Nac ydy	Ydy	Os "Ydy", faint?
Treth y Cyngor?	☐	☐	£	Wifi?	☐	☐	£
Ardrethi dŵr?	☐	☐	£	Rhywun i lanhau eich llety?	☐	☐	£
Gwresogi?	☐	☐	£	Gofal personol?	☐	☐	£
Goleuadau?	☐	☐	£	Golchi dillad personol?	☐	☐	£
Dŵr poeth?	☐	☐	£	Prydau bwyd? (Os "Ydy", gweler isod)	☐	☐	£
Tanwydd ar gyfer coginio?	☐	☐	£	Arall? (Rhowch y manylion isod)	☐	☐	£

Os yw'ch landlord yn darparu prydau bwyd, pa rai a ddarperir? ☐ Brecwast ☐ Cinio ☐ Cinio'r hwyr

Ydy'r prydau'n cael eu paratoi yn y cyfeiriad hwn? Nac ydynt ☐ Ydynt ☐

Ydy'ch rhent yn cynnwys tâl ar gyfer:

Cwnsela a chefnogaeth?	Nac ydy ☐ Ydy ☐	Os "Ydy", faint? £
Gwefru'r larwm argyfwng?	Nac ydy ☐ Ydy ☐	Os "Ydy", faint? £
Glanhau'r ffenestri?	Nac ydy ☐ Ydy ☐	Os "Ydy", faint? £

Adran 7. Talu Budd-dal

Mae talu'ch budd-dal yn uniongyrchol i gyfrif banc / cymdeithas adeiladu'n gyflymach ac yn fwy diogel na ffyrdd eraill o dalu. Mae hefyd yn osgoi problemau gyda phost yn cael ei oedi, ei ddosbarthu i'r cyfeiriad anghywir neu heb gael ei ddosbarthu o gwbl.

Os na allwn eich talu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc, byddwn yn eich talu â siec wedi'i chroesi. Mae'n rhaid talu sieciau wedi'u croesi i gyfrif banc.

Os oes angen cyngor arnoch ar agor cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, cysylltwch â ni. Sylwer na allwn wneud taliadau i gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post.

7a. Tenantiaid Cymdeithas Tai

Ydych chi'n rhentu gan gymdeithas tai? Nac ydw ☐ Ydw ☐

Os nad ydych, ewch i Adran 7b.

Os ydych, hoffech chi i'ch budd-dal gael ei dalu i:

Chi eich hun ☐ Gallwn dalu'r arian yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc / cymdeithas adeiladu. Cwblhewch y ffurflen BACS ar dudalen 15, yna ewch i Adran 9 y ffurflen hon.

Eich landlord ☐ Nawr ewch i Adran 9 y ffurflen hon.

7b. Ydych chi'n talu rhent am unrhyw un o'r canlynol:

Carafán?	Nac ydw ☐ Ydw ☐
Cwch preswyl?	Nac ydw ☐ Ydw ☐
Ffioedd angori?	Nac ydw ☐ Ydw ☐
Llety â chymorth?	Nac ydw ☐ Ydw ☐
Tenantiaeth cyn 1989?	Nac ydw ☐ Ydw ☐
Bwyd a llety? h.y. prydau wedi'u cynnwys yn eich rhent.	Nac ydw ☐ Ydw ☐

Os ateboch "Nac ydw" i bob un o'r rhain, ewch i Adran 7c.

Os ateboch "Ydw" i un o'r rhain, hoffech chi i'ch budd-dal gael ei dalu i:

Chi eich hun ☐ Gallwn dalu'r arian yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc / cymdeithas adeiladu. Cwblhewch y ffurflen BACS ar dudalen 15, yna ewch i Adran 9 y ffurflen hon.

Eich landlord / Asiant ☐ Er mwyn i ni dalu'ch landlord / asiant, bydd angen i chi ofyn i'ch landlord neu'ch asiant gwblhau a llofnodi'r Cytundeb Landlord/Asiant yn Adran 8 yna ewch i Adran 9 y ffurflen hon.

7c. Tenantiaid Pob Landlord Preifat Arall

Byddwch yn derbyn Budd-dal Tai dan gynllun y Lwfans Tai Lleol (LTLl). Bydd pobl sy'n rhan o'r cynllun hwn (tenantiaid preifat sy'n rhentu ystafell neu eiddo gan landlord preifat) yn derbyn taliad yr LTLl yn uniongyrchol iddynt eu hunain.

Gallwn dalu'r arian yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Cwblhewch y ffurflen BACS ar dudalen 15.

Mewn achosion arbennig, efallai bydd modd i ni dalu eich LTLl yn uniongyrchol i'ch landlord / asiant. ☐ Ticiwch yma a chwblhewch weddill yr adran hon os hoffech i ni ystyried talu'ch landlord / asiant.

7c. Tenantiaid Pob Landlord Preifat Arall (parhad)

Ticiwch y blwch neu'r blychau sy'n berthnasol i chi a darparwch y dystiolaeth y gofynnir amdani.

Rheswm dros dalu landlord / asiant	Enghreifftiau o'r dystiolaeth angenrheidiol
☐ Mae gen i / gennym ni gyflwr meddygol neu broblem iechyd meddwl sy'n ei gwneud yn anodd i mi / ni reoli fy nghyllid/ein cyllid.	Tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr gofal neu gefnogi.
☐ Mae gen i / gennym ni anawsterau / anableddau dysgu sy'n ei gwneud yn anodd i mi / ni reoli fy nghyllid / ein cyllid.	Tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr gofal neu gefnogi.
☐ Mae gen i / gennym ni anawsterau difrifol wrth ddarllen ac ysgrifennu neu anawsterau iaith.	Tystiolaeth ysgrifenedig gan grwpiau lles neu weithiwr cefnogi.
☐ Rwy'n / Rydym yn dygymod â bod yn gaeth i gyffuriau, alcohol neu gamblo.	Tystiolaeth ysgrifenedig gan weithiwr gofal neu gefnogi.
☐ Rwy'n / Rydym yn dianc o drais yn y cartref neu mae fy mherthynas / ein perthynas wedi chwalu.	Tystiolaeth ysgrifenedig gan grwpiau lles neu weithiwr cefnogi.
☐ Rwyf / Rydym wedi cael fy rhyddhau / ein rhyddhau'n ddiweddar o'r carchar.	Tystiolaeth ysgrifenedig gan swyddog prawf.
☐ Rwyf / Rydym wedi dioddef profedigaeth yn ddiweddar.	Llythyr oddi wrth ffrindiau neu aelodau o'r teulu gyda thystysgrif marwolaeth.
☐ Rwyf / Rydym wedi gadael gofal neu'r ysbyty'n ddiweddar.	Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr ysbyty, meddyg teulu neu weithiwr gofal.
☐ Rwyf / Rydym wedi bod yn ddigartref yn y gorffennol.	Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Adran Tai, Opsiynau Tai.
☐ Mae gen i / gennym ni broblemau dyled difrifol.	Llythyrau oddi wrth gredydwyr, gorchmynion llys.
☐ Rwy'n fethdalwr heb fy rhyddhau/rydym yn fethdalwyr heb ein rhyddhau.	Tystiolaeth o fethdaliad.
☐ Ni chaniateir i mi / ni agor cyfrif banc.	Llythyrau oddi wrth fanciau neu gynghorwyr arian.
☐ Rwyf / Rydym wedi cael problemau o'r blaen wrth gynnal rhent.	Tystiolaeth gan grwpiau lles, Opsiynau Tai, cyn-landlordiaid, gwasanaethau cymdeithasol.
☐ Rwyf / Rydym yn cael anawsterau wrth reoli fy / ein materion ariannol.	Tystiolaeth o ôl-ddyledion rhent, biliau cyfleustodau, biliau eraill.
☐ Mae fy landlord / asiant wedi cytuno i hepgor y bond / rhent ymlaen llaw, os yw'n derbyn taliad uniongyrchol.	Llythyr oddi wrth eich landlord / asiant yn cadarnhau'r cytundeb hwn.
☐ Byddai taliadau uniongyrchol yn gymorth wrth sicrhau neu gynnal fy nhenantiaeth / ein tenantiaeth.	Llythyr oddi wrth y landlord / asiant yn esbonio'r rhesymau am hyn.

☐ Nid yw'r problemau uchod yn berthnasol i mi, bydd derbyn taliadau LTLl yn anodd i mi, oherwydd:

Defnyddiwch y lle hwn i ddweud am rywbeth arall yr hoffech i ni ei ystyried:

8. Taliadau Uniongyrchol o Fudd-dal Tai

Os ydych am i'ch taliadau gael eu talu i'ch landlord / asiant, mae'n rhaid i chi ofyn i'ch landlord / asiant gwblhau'r datganiad isod.

Mae er eich lles chi fod eich landlord yn llofnodi'r datganiad hwn, ond peidiwch ag oedi cyn dychwelyd y ffurflen hon os na allwch gysylltu â'r landlord. Os ydych chi'n cyflwyno'r ffurflen hon heb i ddatganiad y landlord gael ei lofnodi, byddwn yn anfon Datganiad Landlord atoch y bydd rhaid i chi ei ddychwelyd i'r swyddfa hon o fewn mis calendr.

Nodyn Pwysig i'r Landlord / Asiant

Os ydych am i ni anfon taliadau'n uniongyrchol atoch chi, mae'n rhaid i chi lofnodi a dyddio'r blychau isod er mwyn dangos eich bod yn cytuno i dderbyn y taliadau ac yn deall eich dyletswyddau fel y manylir arnynt isod.

Sylwer nad yw cwblhau'r adran hon yn gwarantu y caiff taliadau eu gwneud i chi.

Os ydych eisoes yn derbyn taliadau Budd-dal Tai yn uniongyrchol gennym, nodwch rif adnabod eich cyfrif. Mae hwn ar eich atodlen taliadau.

Eich Dyletswyddau

- Rhaid i chi ddweud wrthym am unrhyw newidiadau yn amgylchiadau eich tenant yr ydych yn ymwybodol ohonynt. Ceir enghreifftiau o newidiadau mewn amgylchiadau a allai effeithio ar fudd-dal eich tenant yn Adran 10.
- Rhaid i chi wirio'r eiddo'n rheolaidd o hyd fel y byddech ar gyfer tenant nad oedd yn derbyn Budd-dal Tai.
- Os bydd eich tenant yn cael gordaliad Budd-dal Tai ac mae'r awdurdod yn gofyn i chi ad-dalu hwn, mae'n rhaid i chi ei dalu ar gais oni bai'ch bod yn ystyried mai gwall swyddogol oedd yn gyfrifol am y gordaliad a'ch bod wedi anfon llythyr anghydfod ysgrifenedig o fewn mis calendr i gael yr hysbysiad o ordaliad.

Cytundeb y Landlord neu'r Asiant

a) Ydych chi'n berchen ar yr eiddo rydych yn ei rentu i'ch tenant? Nac ydw ☐ Ydw ☐

Os "Nac ydw", nodwch:

Enw'r perchennog:

cyfeiriad y perchennog:

Rhif ffôn y perchennog:

b) Ydy'r tenant neu unrhyw aelod o aelwyd y tenant yn perthyn i'r perchennog/landlord neu ei bartner?

Nac ydy ☐ Ydy ☐ Os "Ydy", rhowch y manylion

c) Ydy'r perchennog / landlord neu ei bartner yn rhiant i unrhyw un o blant dibynnol y tenant? Nac ydy ☐ Ydy ☐

ch) Os ydych chi'n cytuno i dalu i mi'r Budd-dal Tai y mae fy nhenant yn gymwys i'w dderbyn, rwy'n cytuno y byddaf, os gofynnwch i mi, yn ad-dalu unrhyw fudd-dal nad yw'n gymwys i'w dderbyn os bydd newid yn ei amgylchiadau.

Byddaf yn dweud wrth Is-adran Budd-daliadau Dinas a Sir Abertawe ar unwaith, yn ysgrifenedig, am unrhyw newid yn amgylchiadau fy nhenant a ddaw i'm sylw.

Rwy'n deall y gallwn gael fy erlyn os nad wyf yn rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau.

Rwyf wedi darllen a deall yr wybodaeth uchod.

*Llofnod y landlord / asiant:

Dyddiad: / /

*Rhif ffôn y landlord / asiant:

*Dileer fel y bo'n briodol

Os ydych am i ni dalu'ch taliadau'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc, cwblhewch y ffurflen BACS i landlordiaid / asiantiaid ar dudalen 16.

9. Mwy o Wybodaeth

Os oes gennych wybodaeth i gefnogi'ch cais, dylech ei nodi yma.

10. Eich Dyletswyddau

Rhaid i chi ddweud wrthym ar unwaith am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar eich Budd-dal Tai neu'ch Gostyngiad Treth y Cyngor drwy ysgrifennu i'r Is-adran Budd-daliadau, Dinas a Sir Abertawe, Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN neu e-bostiwch budd-daliadau@abertawe.gov.uk.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o newid mewn amgylchiadau y mae'n rhaid i bawb ddweud wrth yr Is-adran Budd-daliadau amdanynt ar unwaith:

- Rydych chi a / neu'ch partner yn derbyn/neu'n dod yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol.
- Unrhyw newid i'ch dyfarniad Credyd Cynhwysol.
- Rydych chi'n newid eich cyfeiriad (gan gynnwys symud i ystafell arall mewn tŷ a rennir).
- Nifer y bobl sy'n byw gyda chi (gan gynnwys unrhyw gyd-denantiaid a phobl sy'n byw gyda nhw).
- Rydych chi, eich partner neu rywun arall yn eich cartref yn dechrau neu'n gorffen swydd neu mae newid yn eich incwm neu'ch cynilion.
- Un o'ch plant yn gadael yr ysgol.
- Unrhyw newidiadau i'ch credydau treth.
- Rydych chi'n gadael eich cyfeiriad am unrhyw reswm (e.e. mynd ar wyliau neu i'r ysbyty).
- Rydych chi a / neu'ch partner yn mynd i'r carchar.
- Os nad ydych chi'n denant y cyngor ac mae'r rhent y mae'n rhaid i chi ei dalu'n newid.
- Os byddwch yn penderfynu symud i gartref gofal preswyl neu gartref nyrsio yn barhaol.
- Mae eich landlord neu berchennog yr eiddo rydych yn ei rentu'n dod yn gyfrifol am unrhyw un o'ch plant.
- Rydych bellach yn fyfyriwr.

Os nad ydych chi'n derbyn Credyd Pensiwn, rhaid i chi ddweud wrthym hefyd:

- Am unrhyw newid i'ch incwm a/neu'ch cynilion neu incwm/gynilion eich partner.
- Os nad ydych chi a/neu'ch partner yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth bellach. **Ni ddylech ddibynnu ar yr Adran Gwaith a Phensiynau neu'r Ganolfan Gwaith i ddweud wrthym.**

Os ydych chi'n derbyn Credyd Pensiwn Cynilion, rhaid i chi ddweud wrthym:

- Os bydd eich cynilion yn mynd yn fwy na £16,000 (gan gynnwys stociau, cyfrannau, bondiau a gwerth unrhyw eiddo ar wahân i'r cartref rydych chi'n berchen arno).

Sylwer nad yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr. Os oes unrhyw amgylchiadau nad ydynt yn cael eu rhestru uchod, cysylltwch â'r Is-adran Budd-daliadau.

11. Eich Preifatrwydd

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Defnyddir eich gwybodaeth wrth i ni gyflawni'n hawdurdod swyddogol ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod gofyn i ni neu y caniateir i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data fel rhywbeth sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel gwrthrych y data, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan.

12. Datganiad - Darllenwch y datganiad hwn yn ofalus cyn i chi ei lofnodi a'i ddyddio.

Rwy'n datgan fel a ganlyn:

- Mae'r wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd y gwn i.
- Os nad oeddwn yn gallu ateb cwestiwn oherwydd fy mod yn aros am wybodaeth, rwyf wedi nodi hyn ar y ffurflen a byddaf yn anfon y manylion atoch ar ôl i mi eu derbyn.
- Rwy'n deall y bydd y cyngor yn gwneud unrhyw ymholiadau angenrheidiol i wirio'r wybodaeth yn y ffurflen hon.
- Rwy'n rhoi caniatâd i'r cyngor groeswirio'r wybodaeth rwyf wedi'i rhoi gydag is-adrannau eraill y cyngor, y Gwasanaeth Swyddogion Rhent, a chynghorau ac awdurdodau budd-dal eraill.
- Rwy'n deall y gall fod gofyn i mi gyflwyno mwy o wybodaeth bersonol i gefnogi fy nghais, ac y bydd yr wybodaeth hon yn destun yr un rheolau preifatrwydd a gynhwysir yn "Eich Preifatrwydd".
- Rwy'n deall y gallwn gael fy erlyn os rwy'n rhoi gwybodaeth sy'n anghywir neu'n anghyflawn neu'n peidio â rhoi gwybod, yn brydlon neu beidio, am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar fy Mudd-dal Tai / Gostyngiad Treth y Cyngor.
- Rwy'n deall y bydd rhaid i mi ad-dalu arian os caiff gormod o Fudd-dal Tai/Ostyngiad Treth y Cyngor ei dalu o ganlyniad i newidiadau yn y manylion a roddir yn y ffurflen hon.
- Rwy'n deall y bydd y cyngor yn defnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth rwyf wedi'u darparu i asesu fy Mudd-dal Tai a/neu fy Ngostyngiad Treth y Cyngor, ac y gellir defnyddio'r manylion hyn ar gyfer unrhyw ostyngiad, gwasanaeth neu fudd-dal lleol y mae'r cyngor yn ei weinyddu. Gall y cyngor roi gwybodaeth i sefydliadau eraill y llywodraeth neu gyrff allanol, os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny.
- Rwyf wedi darllen a deall "Eich Dyletswyddau" ac "Eich Preifatrwydd"
- Rwyf wedi darllen a deall y datganiad hwn.

Eich llofnod:		Dyddiad:	/ /
Llofnod eich partner:		Dyddiad:	/ /

13. Os na all yr hawliwr neu'r partner lofnodi'r ffurflen ei hunan

Oes gan unrhyw un hawl gyfreithiol i ofalu am faterion ariannol y person hwn? Nac oes ☐ Oes ☐

Os oes, sicrhewch fod y person â'r hawl gyfreithiol i ofalu am faterion ariannol y person hwn wedi llofnodi'r datganiad uchod.

Dywedwch wrthym pam rydych chi'n llofnodi'r ffurflen hon ar ran y person sy'n hawlio: e.e. Pŵer Atwrnai, Dirprwy a Benodwyd gan y Llys, rheswm arall.

Enw a chyfeiriad y person a lofnododd y ffurflen:		Llofnod:	
		Perthynas â'r person sy'n hawlio:	
		Dyddiad:	/ /
Rhif ffôn:		E-bost:	

14. Os na all yr hawliwr neu'r partner gwblhau'r ffurflen ei hunan

Ni allaf gwblhau'r ffurflen fy hun felly mae aelod o staff y cyngor/fy ngweithiwr cefnogi* wedi'i llenwi ar fy rhan. Rwyf wedi gwirio'r wybodaeth ar y ffurflen ac mae'n gywir. Rwyf wedi darllen Adran 10 ac Adran 11, neu mae staff y cyngor / fy ngweithiwr cefnogi wedi'u darllen i mi, ac rwy'n eu deall.

*Dilëer fel y bo'n briodol

Eich llofnod:		Dyddiad:	/ /
Enw aelod o staff y cyngor / gweithiwr cefnogi*:		Llofnod:	
Teitl y Swydd:			
Enw'r Sefydliad:			
Rhif ffôn:		E-bost:	

CAIS I FUDD-DAL TAI GAEL EI DALU I GYFRIF BANC / CYMDEITHAS ADEILADU TRWY BACS

Gwnewch daliadau Budd-dal Tai'n uniongyrchol i'm cyfrif banc / cymdeithas adeiladu trwy BACS yn unol â'r manylion isod:
Sylwer – ni allwn wneud taliadau i gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post.

NODWCH EICH MANYLION ISOD

Enw'r Banc / Gymdeithas Adeiladu:	
Cyfeiriad:	
Côd Post:	
Côd Didoli:	
Rhif y Cyfrif: DS: cynhwyswch y **cofrestrif** ar gyfer rhif y gymdeithas adeiladu	
Enw'r cyfrif: (er enghraifft Mr J. Jones)	

SYLWER – OS NA DDARPERIR YR HOLL FANYLION UCHOD, BYDD OEDI CYN TALU TRWY'R DULL HWN.

CAIFF CAIS HEB LOFNOD EI DDYCHWELYD.

Llofnod(ion):	
Dyddiad:	

CAIS I FUDD-DAL TAI GAEL EI DALU I GYFRIF BANC / CYMDEITHAS ADEILADU LANDLORD (NEU GYFRIF ASIANT LANDLORD) TRWY BACS

Os ydych eisoes yn derbyn taliadau budd-dal ar gyfer tenant(iaid) arall / eraill, byddwn yn gwneud POB taliad i un cyfrif banc. Mae'n rhaid mai'r manylion a roddir gennych yw rhai'r cyfrif rydych am i BOB taliad yn y dyfodol gael ei dalu iddo.

Gwnewch daliadau Budd-dal Tai'n uniongyrchol i'm cyfrif banc/cymdeithas adeiladu trwy BACS yn unol â'r manylion isod:

NODWCH EICH MANYLION ISOD

Enw'r Banc / Gymdeithas Adeiladu:	
Cyfeiriad:	
Côd Post:	
Côd Didoli:	
Rhif Cyfrif DS: cynhwyswch y **cofrestrif** ar gyfer rhif y gymdeithas adeiladu	
Enw'r Cyfrif: (er enghraifft Mr J. Jones)	

SYLWER – OS NA DDARPERIR YR HOLL FANYLION UCHOD, BYDD OEDI CYN TALU TRWY'R DULL HWN.

CAIFF CAIS HEB LOFNOD EI DDYCHWELYD.
OS YDYCH YN LLOFNODI AR RAN CWMNI NEU SEFYDLIAD, NODWCH EICH SWYDD.

Llofnod(ion):	
Swydd (os yw'n berthnasol)	
Dyddiad:	